Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dynfant

**Dynfant Road**
**Dynfant**
**Abertawe**
**SA2 7SN**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Dynfant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Dynfant |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 365 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 272 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 59 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.3%)* | 9.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br>*(Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 22.2%)* | 17.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/05/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod:
fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn frwdfrydig yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y perthnasoedd gweithio cadarnhaol iawn sydd ganddynt gyda'u hathrawon ac aelodau staff eraill. Ceir awyrgylch bywiog a chynhwysol yn yr ysgol. Mae'r cyfleuster addysgu arbenigol, a'i ddisgyblion, yn elfen annatod o fywyd bob dydd yr ysgol.

At ei gilydd, mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol. Mae dysgu yn hynod lwyddiannus mewn ystafelloedd dosbarth, ond nid yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn gyson a theg ar draws yr ysgol. Mae'r addysgu yn ddifyr ac wedi'i gynllunio'n dda, ac mae gwersi yn hwyl. Maent yn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac maent yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau annibynnol tra datblygedig, er enghraifft wrth ysgrifennu darnau gwaith estynedig.

Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo ethos cadarnhaol o ofal a chymorth ar gyfer disgyblion yn holl ardaloedd yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain yn eithriadol o dda, ac yn cyfrannu at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu a'u gwydnwch i ddyfalbarhau â thasgau heriol. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fagu hyder ynddyn nhw eu hunain fel unigolion, gan hefyd ddatblygu parch cryf am deimladau pobl eraill.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau siarad Saesneg, gwrando, darllen a rhifedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol, gyda phenderfynoldeb i lwyddo er budd disgyblion a'r gymuned. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu ei weledigaeth bwrpasol, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ymhlith staff ac yn darparu cyfleoedd arloesol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan ffyniannus, lle mae staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n helaeth gan ddefnyddio eu medrau annibynnol tra datblygedig

A3 Sicrhau bod profiadau dysgu yn yr awyr agored yn gyson a bod adnoddau'n cael eu darparu'n deg ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â chreu a gweithredu prosiect secondiadau ar gyfer athrawon yn Abertawe, i gyfoethogi eu medrau addysgu ac arwain trwy weithio am flwyddyn mewn ysgol arall, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy'n debyg i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau siarad, gwrando, darllen a rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn gwneud enillion cryf yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sydd angen cymorth yn manteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd pwrpasol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym. Wrth iddynt symud o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn magu hyder ac yn ateb cwestiynau'n fedrus tra'n rhyngweithio â'u cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn esbonio'n bendant sut i ddefnyddio piped i fesur hylif mewn mililitrau, i wneud diod iachaol ar gyfer gwenyn wedi'u hanafu. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol ac yn datblygu geirfa soffistigedig. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau aeddfed, fel myfyrio ar farwnad glöwr. Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn datblygu medrau siarad a gwrando buddiol, gyda chymorth oedolyn, i fanteisio ar ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym o ran datblygu eu medrau darllen. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus. Maent yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau ffoneg yn bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr sicr a medrus, ac maent wedi'u paratoi'n dda i ddehongli testunau heriol. Er enghraifft, maent yn enwi eu hoff awduron ac yn trafod gwahanol arddulliau'r awduron â dealltwriaeth glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau siarad, gwrando a darllen tra datblygedig yn effeithiol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn dechrau datblygu brawddegau cydlynus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n fedrus gydag atalnodi a gramadeg cywir. Wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o genres. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn ysgrifennu erthyglau difyr ar effaith y chwyldro diwydiannol ar gymdeithas Prydain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn golygu ac yn ailddrafftio eu gwaith yn gadarn ac yn defnyddio geirfa ddychmygus yn llwyddiannus i gyfoethogi'r cynnyrch terfynol. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau annibynnol tra datblygedig yn ddigon effeithiol, wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i greu darnau o ysgrifennu estynedig.

Wrth siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu geirfa addas o eiriau ac ymadroddion syml ac yn ymateb i orchmynion a chyfarchion sylfaenol yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn dweud ymadroddion syml, fel mynegi eu hoffterau a'u casbethau. Mae cynnydd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arafu wrth iddynt fynd yn hŷn, ac erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos gallu cyfyngedig wrth alw i gof strwythurau brawddeg syml a geirfa berthnasol. O ganlyniad, nid yw eu medrau llafaredd Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhifedd effeithiol yn dda iawn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu cyfrif mewn cyd-destun yn gyflym trwy weithgareddau ymarferol, fel didoli a pharu gwahanol wrthrychau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau a ddysgwyd mewn gwersi mathemateg i gwblhau tasgau rhifedd heriol yn frwdfrydig, ac mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn datblygu medrau rhifedd effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr medrus, ac maent yn nodi ac yn balansio siapiau tri dimensiwn gyda'i gilydd i gwblhau strwythurau cymhleth. Mae'r cynnydd cryf hwn yn parhau rhwng Blwyddyn 3 a Blwyddyn 6. Er enghraifft, mae llawer o'r disgyblion hynaf yn plotio ac yn nodi cyfesurynnau mewn pedwar cwadrant yn llwyddiannus ac yn defnyddio data wedi'i goladu ar dymereddau yn Costa Rica i dynnu llun graffiau llinell yn gywir. Hefyd, maent yn defnyddio eu medrau'n dda mewn cyd-destunau dilys, fel rheoli cyllideb mewn prosiect menter ar gyfer ffair gymunedol yn Abertawe.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cadarn. Erbyn Blwyddyn 1, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio cyfrifiadur llechen i fynd at weithgareddau dysgu, a gallant raglennu tegan yn llwyddiannus i lywio ar hyd llwybr penodedig. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn creu *collages* diddorol trwy dynnu lluniau a'u trefnu gan ddefnyddio rhaglen graffeg yn ddeheuig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ymestyn eu medrau digidol yn briodol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn golygu storïau ac yn prosesu geiriau yn effeithiol, ac yn creu holiaduron defnyddiol. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gymwys ar draws ystod briodol o fedrau digidol, ac maent yn ysgrifennu rhaglenni syml i greu gemau, fel llywio gwenynen yn ôl i'w chwch gwenyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu taenlenni yn effeithlon ac yn cynhyrchu ffilmiau gan ddefnyddio sgrin werdd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn dda. Mae hyn yn arbennig o wir am y disgyblion ieuengaf, sy'n creu celf ac yn chwarae rôl mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin yn pobi cacennau yn frwdfrydig yn y gegin fwd gan ddefnyddio'r fflora a'r ffawna gerllaw. Yn ychwanegol, mae bron pob un o'r disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn croesawu'r rhyddid i arbrofi a datblygu eu creadigrwydd yn yr ardal chwarae meddal a'r ystafell synhwyraidd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda. Defnyddiant strategaethau effeithiol i ddadansoddi tasgau ac yn dyfalbarhau yn ddiwyd wrth ddatrys problemau. Maent yn datgan mewn ffordd ddealladwy fod tasgau heriol ac anodd yn fuddiol i'w dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau posau a phroblemau ac yn hoffi mynd i'r afael â nhw gydag awch.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn aelodau balch o'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hamgylchedd cynhwysol. Maent yn cael blas ar y cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd gyda ffrindiau a staff, ac mae llawer o ddisgyblion yn gynrychiolwyr rhagorol i'r ysgol. Maent yn ymfalchïo'n fawr mewn trafod eu gwaith ac ethos yr ysgol gyda'i gilydd ac ymwelwyr.

Mewn dosbarthiadau, yn y cyfleuster addysgu arbenigol ac o gwmpas yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd, staff, ac ymwelwyr. Mae'r ethos cyfeillgar sy'n treiddio ar draws yr ysgol yn nodwedd eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn hapus ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae, yn rhagorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i aros yn iach trwy fwyta diet cytbwys, yfed dŵr, a chael ffordd egnïol o fyw. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bwydydd iach yn gywir yn eu hardaloedd chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, sy'n cynnwys ystod o gyfleoedd wedi'u seilio ar chwaraeon a chlybiau artistig, fel y côr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd, ac mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn croesawu'r cyfleoedd buddiol i chwarae ac archwilio yn yr ardal chwarae meddal a'r ystafell synhwyraidd. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau eu gwersi addysg gorfforol rheolaidd ac mae eu medrau corfforol yn datblygu'n dda. Mae disgyblion hŷn yn esbonio sut mae strategaethau iechyd meddwl, fel ymwybyddiaeth ofalgar, yn eithriadol o bwysig i sicrhau ffordd gytbwys o fyw. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn disgrifio'n huawdl eu prosiect i ddatblygu ardal o dir yr ysgol i gefnogi lles emosiynol, gan ddweud ei fod yn ofod heddychlon i ymlacio a mwynhau egwyl heb straen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod bod rhaid iddynt beidio â datgelu eu cyfrineiriau i bobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn esbonio'n synhwyrol fod ganddynt lefelau uchel o ymddiriedaeth mewn staff a'u bod yn fodlon trafod unrhyw bryderon gyda nhw. Yn ychwanegol, maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ystyried eu pryderon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith, ac yn dangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn gweithio gyda'u cyfoedion yn dda i ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth gan oedolion, ac yn defnyddio'r strategaeth 'Tri Cyn Fi' yn bwrpasol yn ystod gwersi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac yn datblygu'n dda fel dysgwyr galluog a dyheadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu eu syniadau at gynllunio testunau a sut mae athrawon yn dilyn trywydd y rhain pan fyddant yn cynllunio profiadau dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn parhau i ganolbwyntio am gyfnodau amser estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn

ymateb yn gadarnhaol i adborth gan eu cyfoedion ac oedolion. Defnyddiant adborth llafar ac ysgrifenedig yn dda i wneud gwelliannau yn eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall yn glir fod eu grwpiau llais y disgybl yn cysylltu â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, a bod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan bobl eraill. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig mewn gwneud penderfyniadau, sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn wybodus am faterion byd-eang. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad ac yn dadlau am eu hawliau fel plant yn hyderus. Maent yn ofalgar tuag at ei gilydd ac yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn gytûn. Mae ganddynt system gyfeillion ar gyfer amseroedd chwarae, ac mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo eu ffrindiau sy'n teimlo'n unig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn parchu'r amgylchedd ac yn deall sut mae eu penderfyniadau a'u dewisiadau yn effeithio arno. Dangosant frwdfrydedd a chyffro wrth amlinellu eu cynlluniau i ddatblygu ardal o fewn tir yr ysgol i ddenu gwenyn, yn dilyn ffocws ysgol gyfan ar faterion cadwraeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at ei gilydd ac yn awyddus i gynorthwyo'r rhai sydd mewn angen. Mae'r ysgol yn cyfrannu at sawl elusen genedlaethol a lleol trwy gydol y flwyddyn.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol a dychmygus sy'n datblygu diddordebau a medrau ehangach disgyblion yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm wedi'i ddylunio'n arloesol i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n amlwg ym mhob dosbarth, gan gynnwys y cyfleuster addysgu arbenigol. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i greu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu cwricwlwm teilwredig ei hunain. Mae strategaethau diddorol fel 'Gwobrau Dug Dynfant' ('Duke of Dunvant Awards') yn cynorthwyo disgyblion i roi'r weledigaeth hon ar waith yn ystod gweithgareddau ymarferol. Ar sail eu hymchwil, dysgu proffesiynol a threialu syniadau newydd, mae staff yn creu cynlluniau ystyrlon a phrofiadau dysgu difyr sy'n rhoi ystyriaeth dda i le'r ysgol yn ei hardal leol a'r byd ehangach.

Mae athrawon yn cynllunio themâu tymhorol cydlynus ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at sut maen nhw'n dysgu. Maent yn darparu cydbwysedd effeithiol o brofiadau dysgu, sy'n rhoi cysondeb a dilyniant o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6. Mae athrawon yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ran medrau digidol wedi'i chynllunio cystal.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o natur amrywiol cymdeithasau ledled y byd. Mae themâu wedi'u seilio

ar faterion amrywiaeth a chydraddoldeb yn annog disgyblion hŷn i archwilio cyfraniadau arweinwyr dyheadol ac ymgyrchwyr hawliau sifil yn effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio adnoddau o'r tu mewn i'r ardal leol yn fedrus i ymestyn cyfleoedd dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn datblygu eu dealltwriaeth o effaith mwyngloddio ar y dirwedd leol, ac yn ysgrifennu barddoniaeth wedi'i hysbrydoli gan Dylan Thomas. Mae'r ysgol yn cyfoethogi ei chwricwlwm gydag amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cyfweld ag aelodau o'r gymuned leol a disgyblion hŷn yn ymweld â'r Senedd yng Nghaerdydd, a Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Mae athrawon yn darparu cynlluniau strwythuredig i sicrhau datblygiad y Gymraeg, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn modelu'r Gymraeg yn briodol ac yn darparu amrywiaeth eang o gyfarchion a chyfarwyddiadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael digon o effaith ar ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd buddiol i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ar draws yr ysgol, er enghraifft trwy astudio pobl enwog ym myd chwaraeon fel Gareth Bale.

Mae addysgu yn yr awyr agored yn amlwg ar draws yr ysgol, ac yn hynod effeithiol yn y dosbarth meithrin. Mae'n cynorthwyo datblygiad medrau datrys problemau a medrau corfforol disgyblion yn llwyddiannus. Mae addysgu mewn ardaloedd coetir a'r ardd synhwyraidd yn fuddiol i greadigrwydd a chydweithio disgyblion, ac mae'r ardal goedwig yn cyfrannu'n effeithiol at iechyd meddwl a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored yn gyson ar draws yr ysgol, ac nid yw'n gyfartal rhwng dosbarthiadau.

Mae gan athrawon berthnasoedd gweithio hynod effeithiol gyda disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd ofalgar iawn at ddysgu yn y cyfleuster addysgu arbenigol. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o fedrau personol a chymdeithasol disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus. Mae staff cymorth yn annatod i ddatblygu dysgu disgyblion, ac maent yn gweithio ar y cyd ag athrawon yn hyfedr. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael cymorth a her o ansawdd uchel.

Mae athrawon yn gosod amcanion clir i wersi ac yn rhoi adborth ysgrifenedig a llafar buddiol. Mae athrawon a staff cymorth yn modelu iaith yn fedrus, ac mae eglurder eu disgwyliadau yn gryf, sy'n cefnogi datblygiad medrau disgyblion. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn bwrpasol ac yn cymysgu sesiynau 'dal i fyny' rheolaidd trwy gydol gwersi i asesu dysgu disgyblion ac egluro unrhyw gamdybiaethau. Mae athrawon a staff cymorth yn holi disgyblion yn fedrus i gyfoethogi eu dealltwriaeth a datblygu eu dysgu. Maent hefyd yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael i ddisgyblion ddyfalbarhau yn annibynnol. Fodd bynnag, yn aml, mae gormod o bwyslais ar esbonio meini prawf llwyddiant a rhoi gormod o sgaffaldau i ddisgyblion cyn dechrau tasgau. Mae hyn yn rhwystro cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau annibynnol datblygedig wrth ysgrifennu mewn ffurfiau estynedig.

Mae athrawon yn defnyddio ystod dda o weithdrefnau asesu i asesu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion a llywio cynllunio yn y dyfodol yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion.

Gwna athrawon ddefnydd da o offer asesu i olrhain cynnydd disgyblion a monitro dysgu yn effeithlon. Caiff rhieni adroddiadau blynyddol addysgiadol am gynnydd eu plentyn.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, ac mae'r staff yn annog disgyblion i fanteisio ar ei hethos cefnogol a chyfeillgar yn llwyddiannus. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion eu hunain yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb â sensitifrwydd i anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd a'u lles, ac mae awyrgylch cefnogol yn helpu disgyblion i ymgyfarwyddo'n hawdd â bywyd ysgol. Yn ystod y pandemig, ymgorfforwyd yr arferion buddiol hyn ymhellach, a gweithiodd yr ysgol yn ddiwyd i annog disgyblion i ddatblygu agweddau gwydn at ddysgu.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r system olrhain yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae staff yn asesu cyflawniadau a lles disgyblion yn ofalus, sy'n golygu bod athrawon yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob disgybl. Os bydd staff yn nodi materion i'w gwella, mae'r ysgol yn darparu cymorth ac ymyriadau gwerthfawr i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth i wella medrau sylfaenol disgyblion yn strwythuredig a graddol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau ymyrraeth a hyfforddi sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi yn llwyddiannus. Mae hyn yn ymestyn eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol ac yn eu galluogi i rannu eu teimladau'n agored gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni dysgu personoledig ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r cyfleuster addysgu arbenigol sy'n gweddu i'w hanghenion yn dda. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u cyflawniadau unigol. Mae perthnasoedd llwyddiannus rhwng staff y cyfleuster addysgu arbenigol a'r athrawon a'r staff cymorth eraill yn cynorthwyo integreiddio disgyblion ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae strategaethau'r ysgol i ymgysylltu â rhieni a gwella'u hymglymiad yn nysgu eu plant yn datblygu'n dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ac arweiniad arbenigol ar gyfer disgyblion. Mae'r cydweithio hwn yn datblygu amrywiaeth o fedrau a mecanweithiau ymdopi yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n agos ag ysgolion lleol trwy eu grŵp cydlynwyr. Mae hyn yn arwain at strategaethau gwerthfawr i staff ymestyn eu rolau sy'n newid wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol. O ganlyniad, caiff disgyblion gymorth gofalgar a chynhwysol o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6, ac yn y cyfleuster addysgu arbenigol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Mae hyn yn helpu ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu, ac yn cynnwys teithiau i siop fferm gyfagos ar gyfer sesiynau iechyd a lles a theithiau wythnosol i'r llyfrgell i hyrwyddo medrau darllen disgyblion. Yn ychwanegol, mae astudio erchyllterau byd-eang, fel y rhyfel yn Wcráin, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd, fel goddefgarwch, a'r hawl i fod yn rhydd o aflonyddu. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Ceir cyfleoedd teilwredig hefyd i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, sy'n cynnwys astudiaethau lleol ar gloddio glo yn Nynfant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae athrawon yn darparu gwersi ysgogol sy'n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Un o elfennau cadarnhaol y gwersi yw eu bod yn annog trafodaethau ymhlith disgyblion, sy'n datblygu medrau meddwl a chyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ymagweddau arloesol a strwythuredig hyn mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys cyfleoedd i archwilio materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob cwr o'r byd.

Mae staff yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o fywyd ysgol ac wrth wraidd eu cyfrifoldebau bob dydd. O ganlyniad, mae'r diwylliant diogelu yn gryf, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gyfrannu at ddiogelwch a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd aros yn ddiogel. Caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro'n drylwyr, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn dda ag unrhyw achosion o fwlio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn canolbwyntio ar roi'r ysgol wrth wraidd ei chymuned, ac yn rhoi lles disgyblion a'u teuluoedd yn ganolog i'r weledigaeth hon. Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn cefnogi'r athroniaeth hon ac yn ei gweithredu yn eu rolau yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y staff yn y cyfleuster addysgu arbenigol, sy'n cael eu harddel fel nodwedd annatod o 'Tîm Dynfant'. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod ethos gofalgar a chefnogol yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, sef 'Anelu, Credu, Cyflawni'. Mae hyn yn hyrwyddo cynwysoldeb yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddysgu, eu gofal am ei gilydd a'u hymddygiad eithriadol o dda.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau cyfrifoldeb yn effeithiol ac yn dwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn bwrpasol. Maent yn defnyddio canfyddiadau arferion rheoli perfformiad trylwyr i wella'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar fireinio ansawdd yr addysgu a meithrin dealltwriaeth ar y cyd o werthoedd proffesiynol ymhlith staff. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae prosesau arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn drylwyr ac wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae systemau i wella ansawdd yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion, monitro addysgu a dadansoddi data mewnol ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid eraill am yr ysgol i lywio'u harfer. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau rhieni a gofalwyr ac yn

gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau yn synhwyrol, fel addasu systemau mynediad yr ysgol i reoli risg yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r cyswllt rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gryf. O ganlyniad, mae arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau yn effeithiol ac yn gosod targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol gyda phob aelod o staff yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac yn cynghori rhieni a gofalwyr ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu blychau cinio. Cadwodd arweinwyr mewn cysylltiad agos â chymuned yr ysgol ehangach trwy gydol y pandemig. Fe wnaethant adeiladu ar y perthnasoedd cryf a oedd yn bodoli gyda rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu bwndeli bwyd o fanc bwyd yr ysgol, a darparu pecynnau gwaith unigol i gefnogi dysgu'r disgyblion gartref.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'r safle. Mae hyn yn cynnwys mannau awyr agored ysgogol fel y coetir a'r ardaloedd plannu. Fodd bynnag, ni chaiff adnoddau dilys yn yr ardaloedd awyr agored hyn eu rhannu'n gyfartal ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn yr ystafelloedd dosbarth yn effeithiol ac yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r staff cymorth yn darparu cymorth buddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn rheolaidd yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn ei dwyn hi ac uwch arweinwyr eraill i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr am ddysgu disgyblion yn rheolaidd ac yn eu cynghori'n realistig ar sut i wella darpariaeth, fel creu ystafelloedd synhwyraidd ac ardaloedd chwarae meddal. Mae llywodraethwyr yn datblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau'r ysgol ac yn mynd ar deithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion i fesur ei ansawdd ochr yn ochr ag athrawon. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth werthfawr o arferion presennol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn drylwyr ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel buddsoddiadau mewn caledwedd digidol a phecynnau dysgu ar-lein.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses hon yw bod staff yn datblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella deilliannau disgyblion. Enghreifftiau nodedig yw hyfforddiant i ddatblygu cynllunio trawsgwricwlaidd i ymestyn dysgu disgyblion a hyfforddiant ynghylch emosiynau i gefnogi lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol yn arbennig o dda, ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus yn fuddiol. Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. Mae cynllun buddiol 'Secondiad Abertawe', a gafodd ei greu ac yn cael ei weithredu gan yr ysgol, yn galluogi athrawon i weithio mewn ysgolion eraill am gyfnodau amser estynedig i ddatblygu eu medrau addysgu ac uwch arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae'r diwylliant dysgu proffesiynol parhaus yn creu cyfleoedd dysgu defnyddiol, sy'n arwain at ddatblygu disgyblion brwdfrydig sy'n cyflawni'n dda.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2022